

# Astudiaeth Dichonoldeb Porth Einon a Horton Blaendraethau ac Aneddiadau



## ADRODDIAD TERFYNOL: Crynodeb Gweithredol Rhag 2018 Partneriaeth BRO



## CYNNWYS

Rhagair a chydabyddiaeth	3
Crynodeb Gweithredol	4
Cyflwyniad a chefnidir yr astudiaeth	5
7.0 Dadansoddiad bwloch ac argymhellion	54
7.1 Matrics o faterion yn erbyn 3 phrif opsiwn amserlen	54
7.2 Llywodraethu a rheoli'r ddau safle	58
7.3 8.0 Casgliadau .....	59

## Rhagair a chydnabyddiaeth

Comisiynwyd Partneriaeth BRO gan Gyngor Abertawe ym mis Mai 2018 i gynnal astudiaeth dichonoldeb ar Borth Einon a Horton. Gwnaed y gwaith dros gyfnod o 8 mis ac roedd yn cynnwys ymgynghoriad helaeth â:

- Staff Cyngor Abertawe
- Cyngor Cymuned Porth Einon
- Pwyllgor Neuadd y Pentref
- Grŵp Ardaloedd Lleol (GALI)
- Partneriaeth AoHNE Gŵyr
- Perchnogion busnesau lleol
- Preswylwyr
- Amrywiaeth eang o randdeiliaid
- Elusennau amgylcheddol, gan gynnwys Cadwch Gymru'n Daclus a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Cyrff statudol, gan gynnwys NRW a Cadw

Yn ogystal, cynhaliwyd arolwg o 100 o ymwelwyr dros fisoedd yr haf.

Rydym yn hynod ddiolchgar i bob un o gyfranogwyr yr astudiaeth dichonoldeb hon - am eu hamser, eu diddordeb a'u sylwadau adeiladol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r materion a nodwyd gennym, roedd consensws cryf bod angen cymryd camau gweithredu. Fodd bynnag, roedd barnau gwahanol iawn ar rai o'r cynigion, a oedd weithiau'n groes i'w gilydd. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi'r gwahanol farnau hyn ac ar yr un pryd yn cyflwyno opsiynau a ddylai fod yn effeithiol ac a gefnogir gan y mwyafrif.

## Crynodeb Gweithredol

Mae Porth Eionon a Horton yn rhannu traeth poblogaidd, er mae'n rhaid defnyddio gwahanol ffyrdd i'w gyrraedd. Mae Porth Eionon yn cadw ei gymeriad fel pentref arfordirol traddodiadol â threftadaeth forwrol gref ac mae'n cynnwys caffis, bwyty, siop draeth a thafarn. Mae Horton yn llawer llai ac yn dawelach. Mae safleoedd carafanau a gwersylla helaeth yn y ddau leoliad, yn ogystal â nifer mawr o lety gwyliau. Yn ystod yr haf mae'r ddau safle'n boblogaidd iawn ac weithiau'n llawn. Fodd bynnag, mae'r tymor twristiaeth yn fyr ac mae'r lle'n dawelach o lawer y tu allan i gyfnod gwyliau'r ysgol.

Comisiynwyd yr astudiaeth dichonoldeb gan Gyngor Abertawe yn dilyn cydnabyddiaeth bod angen cynnal asesiad cynhwysfawr o'r blaendraeth a rheolaeth yr ardal ar gyfer ymwelwyr. Cyngor Abertawe sy'n berchen ar y meysydd parcio a'r blociau toiledau ar y ddau safle, ynghyd â'r llithrfa ym Mhorth Eionon. Mae'r awdurdod hefyd yn rheoli system y twyni sy'n estyn o Borth Eionon i Horton. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys cymysgedd o: ddigwyddiadau cymunedol, cyfarfodydd â sefydliadau a rhanddeiliaid, arolwg o ymwelwyr, cyswllt â swyddogion yng Nghyngor Abertawe a'r Cynghorydd lleol. Roedd y gwaith hefyd yn cynnwys arolwg ffotograffig ac arsylwadol i ddeall sut roedd y cyrchfan yn gweithredu yn ystod cyfnodau prysur. Daeth sawl mater i'r amlwg o'r ymarferion casglu data hyn ac mae'r rhain wedi'u grwpio'n 20 argymhelliad ar gyfer Porth Eionon a 7 ar gyfer Horton.

Ar gyfer Porth Eionon, sydd dan bwysau sylweddol ar ganol y tymor, y prif faterion yw: rheoli'r maes parcio, ansawdd gwael y toiledau, tagfeydd traffig a lansio cychod. Roedd pryderon hefyd am y nifer mawr o arwyddion ar lan y môr, cynllun y ffordd ger y cilfachau parcio i'r anabl ac ansawdd y biniau sbwriel. I grynhoi, mae Porth Eionon fel petai wedi'i esgeuluso ac nid oes ganddo ddigon o adnoddau.

Mae Pwyllgor Neuadd y Pentref yn dymuno ymrwymo i bartneriaeth â Chyngor Abertawe i osod canolfan aml-swyddogaeth fodern yn lle'r bloc toiledau presennol ar gyfer ymwelwyr a darparu cyfleusterau i breswylwyr. Byddai hyn yn golygu gwerthu neuadd bresennol y pentref a'i thir gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer dau neu dri thŷ. Yn yr ail gyfarfod cymunedol a drefnwyd ar gyfer yr astudiaeth hon, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn, ar yr amod nad oedd y ganolfan newydd yn cynnwys bwyty a fyddai'n cystadlu â busnesau presennol. Gallai'r ganolfan newydd arfaethedig ddatrys llawer o'r prif broblemau a nodwyd ym Mhorth Eionon, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â rheoli'r maes parcio, cyflwr y toiled a gweithdrefnau lansio cychod ar y llithrfa. Mae'r 7 argymhelliad ar gyfer Horton yn ymwneud â: maes parcio, cyflwr y bloc toiledau, mynedfa i'r traeth gerddwyr, cyflwr llwybrau estyll a'r twyni.

Mae'r argymhellion cyflawn wedi'u grwpio'n gamau gweithredu tymor byr (1-3 blynedd), tymor canol (3-5 mlynedd) a thymor hwy (5-10). Pan fydd Cyngor Abertawe wedi ystyried yr adroddiad hwn ac wedi cytuno ar ffordd ymlaen, bydd angen cysylltu â sawl sefydliad i gydlynu cyflwyno'r argymhellion.

## 1.0 Cyflwyniad a chefnidir yr astudiaeth

Ym mis Mai 2018, comisiynwyd y Bartneriaeth BRO gan Gyngor Abertawe, ar ran Grŵp Gweithredu Lleol (GGLI) Rhaglen Datblygu Gwledig Abertawe, i gynnal astudiaeth dichonoldeb annibynnol a chynhwysfawr ar Borth Einon a Horton. Cwblhawyd yr astudiaeth ym mis Rhagfyr 2018.

Mae Cyngor Abertawe'n gwasanaethu ac yn gweithredu nifer o gyfleusterau ym Mhorth Einon a Horton, gan gynnwys: cyfleusterau toiledau, meysydd parcio, parcio ar gyfer cychod a llithrfa. Amlygodd briff yr astudiaeth fod nifer o'r rhain wedi dyddio erbyn hyn ac y gellid eu moderneiddio i ateb y galw cynyddol a disgwyliadau newidiol ymwelwyr. Mae Cyngor Abertawe hefyd yn rheoli ecosystem y twyni a'r llwybrau mynediad sydd y tu ôl i'r traeth. Dynodir y llain arfordirol ar bob ochr i Borth Einon a Horton fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), tra bod Bae Porth Einon, o'r marc dŵr isel, yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig Bae a Morydau Caerfyrddin (ACA). Mae Porth Einon a Horton hefyd yn rhan o ddynodiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr (AHNE). Gweler atodiad 7.

Mae Porth Einon yn un o'r tri thraeth yn Abertawe y dyfarnwyd y Faner Las iddynt, sy'n gydnabyddiaeth ryngwladol o'r safonau amgylcheddol ac ansawdd uchaf. Mae gwobr y Faner Las yn hynod fuddiol i'r economi leol.

Mae gan Borth Einon dreftadaeth forwrol gyfoethog, gan gynnwys dau adeiledd hanesyddol rhagorol yn y Tŷ Halen a Thwll Culver gerllaw. Mae cymeriad traddodiadol y pentref wedi cael ei gysgodi rhywfaint gan ddatblygiad modern a sefydlu parciau carafanau a gwerysyla mawr. Serch hynny, mae'r pentref yn dal i fod yn ddymunol ac mae'n darparu mynediad i draeth poblogaidd iawn, yn ogystal â golygfeydd arfordirol a bywyd gwyllt rhagorol.

Mae Cyngor Abertawe yn cydnabod nad yw Porth Einon yn gweithredu i'w botensial llawn yn ystod cyfnod yr haf pan fydd y blaendraeth yn troi'n 'bot mêl' i ymwelwyr. Mae gorlenwi, arwyddion gwael a chynllun y ffordd yn arwain at ddryswch a thagfeydd eithafol wrth i ymwelwyr geisio mynd i mewn ac allan o'r pentref. Mae'r materion hyn wedi'u nodi yng Nghynllun Rheoli Traethau Cyngor Abertawe (CRhT) a'i Gynllun Rheoli Cyrchfannau (CRhC).

Er gwaethaf y gwendidau hyn, mae Porth Einon yn parhau i fod yn boblogaidd gydag ymwelwyr. Yn 2011, pleidleisiwyd Porth Einon fel y Traeth Prydeinig Gorau gan Wobrau Cadbury Flake 99 Prydain Fawr, gan guro cystadleuaeth o bob cwr o'r DU.

Yn ddiweddar, gwelwyd cynnydd mewn chwaraeon amgen ar y traeth hefyd, yn enwedig gweithgareddau megis padlo bwrdd ar eich traed ac arfordiro. Gyda chlwb cychod prysur a chlwb rhwyfo newydd ei sefydlu ym Mhorth Einon, mae'r traeth yn parhau i fod yn boblogaidd iawn gydag ymwelwyr.

Fodd bynnag, gallai poblogrwydd parhaus Porth Einon gael ei danseilio gan y diffyg amwynderau o ansawdd uchel y byddai disgwyl eu cael mewn cyrchfan prysur i dwristiaid, gan gynnwys: toiledau addas, manau newid, stordai, cyfleusterau lansio cychod a mynediad i'r anabl i'r traeth ac ardaloedd gwyllo.

Mae Horton, ar y llaw arall, yn dawelach, gyda maes parcio llawer llai, bloc toiledau, ond dim siopau nac amwynderau eraill. Felly mae Horton dan bwysau llawer llai o'i gymharu â Phorth Einon ac mae angen llai o sylw arno. Fodd bynnag, ar gyfer yr astudiaeth hon, rydym wedi cymryd golwg integredig ac wedi ystyried y ddau anheddiad a thraeth fel cyrchfannau â chysylltiad agos.

Trwy ymgymryd â'r ymchwil fanwl hon, nod y cyngor yw nodi a darparu tystiolaeth o'r materion a amlygwyd uchod a mabwysiadu ymagwedd gyfannol at reoli datblygiad. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys asesiad o'r materion canlynol ym Mhorth Einon a Horton:

- Amwynderau cyffredinol ac apêl y ddau draeth
- Addasrwydd y toiledau a'r cawodydd
- Trefniadau parcio
- Trefn y ffordd a dulliau rheoli traffig
- Cyfleusterau lansio cychod
- Darpariaeth achubwyr bywyd
- Sut rheolir ecosystem y twyni
- Mynediad arfordirol a llwybrau cyhoeddus
- Nodweddion treftadaeth megis y Tŷ Halen a Thwll Culver
- Darpariaeth cludiant cyhoeddus a sut caiff ei hybu.

Cynhaliwyd yr astudiaeth trwy gyfuniad o:

- Gyfweiliadau wyneb yn wyneb a thros y ffôn â phrif randdeiliaid megis: Cadw, Cadwch Gymru'n Daclus, RNLI, Cymdeithas Gŵyr a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Gyfweiliadau â busnesau lleol
- Presenoldeb yng Ngrŵp Rheoli Traethau Cyngor Abertawe
- Gyfweiliadau â nifer o staff Cyngor Abertawe
- Dau gyfarfod cymunedol agored
- Dau gyfarfod â Phwyllgor Neuadd y Pentref
- Dau gyfarfod â Chyngor Cymuned Porth Einon (gwnaed ymdrech hefyd i gysylltu â Chyngor Cymuned Pen-rhys ond ni chafwyd ymateb)
- Cyfarfod â'r Cynghorydd Richard Lewis
- Ymchwil arfer gorau
- Arolwg o ymwelwyr a gynhaliwyd ar wahanol ddiwrnodau drwy gydol yr haf.

Nodir rhagor o fanylion am y broses casglu data yn Adran 2.0.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno'r data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd uchod ac yn nodi nifer o argymhellion clir a fydd yn gwella'r modd y rheolir Porth Einon a Horton fel cyrchfannau i dwristiaid o ansawdd uchel.

Rydym wedi grwpio'r argymhellion hyn fel a ganlyn:

- Tymor Byr (1-3 blynedd)
- Tymor Canol (3-5 mlynedd)
- Cynigion tymor hwy. (5-10 mlynedd).

Bydd angen buddsoddiadau cyfalaf sylweddol ar gyfer y rhain ac mae ein hastudiaeth wedi cynnwys trafodaeth ag adran adfywio economaidd Cyngor Abertawe i nodi ffynonellau cyllid posib ar gyfer rhai o'r rhain. Yn y pen draw, bydd y cynigion yn gwella rheolaeth edrychiad ac apêl Porth Einon a Horton - a fydd yn fuddiol i ymwelwyr, preswylwyr a busnesau lleol.

Bydd yr argymhellion sy'n ymwneud â rheoli yn y dyfodol a gweithredu mwy cydweithredol rhwng gwahanol adrannau hefyd yn gwella effeithlonrwydd ac, yn y pen draw, yn lleihau costau refeniw i Gyngor Abertawe.

## 7.0 Dadansoddiad bwlch ac argymhellion

### 7.1 Matrics o faterion yn erbyn 3 phrif opsiwn amserlen 54

Mae'r tabl canlynol yn cyfuno'r materion a nodwyd ym Mhorth Einon a Horton gyda'r tri opsiwn sy'n ymwneud â chamau gweithredu tymor byr, canolig a hir.

#### 7.1.1 Porth Einon

Rhif	Thema	Cam gweithredu tymor byr 1-2 flynedd	Buddsoddiad cyfalaf tymor canolig 3 -5 mlynedd	Isadeiledd cyfalaf tymor hwy 5-10 mlynedd	Nodiadau
1	Mannau parcio ceir	Cloi ar ôl 11pm yn yr haf. Cael gwared ar gynhwysyddion. Symud y mesurydd parcio i'r brif faes parcio. Adolygu a chadarnhau perchnogaeth tir	Rheoli fel rhan o'r ganolfan ymwelwyr a thraeth newydd		Bydd busnesau presennol yn cael eu hatal rhag datblygu neu gallant fethu oni bai y cymerir camau gweithredu brys.
2	Rheoli traffig	Arwyddion ffyrdd Porth Einon. Goleuadau traffig dros dro yn ystod y cyfnodau	Lleihau mynediad i gerbydau mawr yn ystod y cyfnodau prysur	Ymchwilio i ddulliau rheoli traffig parcio a theithio a'r defnydd o fysus gwennol a thrên bach.	Mae diffyg mynediad ar gyfer y gwasanaethau brys yn fygythiad mawr y mae'n rhaid mynd i'r
3	Toiledau	Cyfleusterau ychwanegol yn ystod cyfnodau	Eu cynnwys yn y ganolfan newydd		Y toiledau oedd un o'r nodweddion lleiaf poblogaidd ac nid ydynt yn

4	Mannau parcio i'r anabl a'r cylchfan	Ailddylunio a thirlunio'r ardal, gan gynnwys arwydd croeso a nodwedd dreftadaeth newydd e.e.			Cyfle mawr i greu amgylchedd llawer mwy croesawgar
5	Glendid y traeth a'r biniau	Gosod unedau wedi'u pweru â solar yn lle'r biniau presennol			Bydd yn gwella'r edrychiad a'r ffordd o'u rheoli
6	Baw cŵn a biniau sbwriel	Cynyddu nifer y biniau a'r casgliadau Gweithgareddau cynyddu ymwybyddiaeth ar y cyd â Cadwch Gymru'n Daclus	Cynyddu gorfodi is-ddeddfau		Bydd yn cael effaith ddioded, ar gost isel
7	Lansio cychod	Gosod cloeon trydanol	Dan reolaeth y ganolfan newydd		Bydd yn gwella gweithrediad, yn lleihau gwaith gweinyddol ac yn arwain at ddefnydd mwy rheoledig a diogel
8	Storio cychod a chyfarpar arall	Dod o hyd i ganolfan ar gyfer y Clwb Rhwyfo ar y maes parcio gorlif e.e. cynhwysydd dros dro nes bod y ganolfan wedi'i hadeiladu.	Sicrhau bod digon o le i ddiwallu anghenion y Clwb Rhwyfo, RNLI, y Clwb Achub Bywyd a Thŷ'r Borfa. Efallai bydd gan Anturiaethau Arfordir Gŵyr ddiddordeb hefyd.	Angorfa bosib ar gyfer cychod hwylio ger YHA/Tŷ Halen.	Wrth reoli'r ganolfan newydd bydd angen ystyried anghenion nifer mawr o ddefnyddwyr.
9	Arwyddion a phaneli dehongli i ymwelwyr	Tynnu'r rhan fwyaf o'r arwyddion presennol ar lan y môr, cadw'r paneli dehongli	Gosod paneli dehongli newydd yn y ganolfan ymwelwyr		Bydd yn gwella'r edrychiad



10	Tirlunio'r ardal o gwmpas y siopau	Gwelliant cost isel, effaith uchel			Gellid cyflawni hyn am gost isel a byddai o fudd i fusnesau lleol ac ymwelwyr
11	Gwella mynediad i'r anabl i'r traeth	Defnyddio matiau y gellir eu rhoio Gallai'r gwasanaeth hwn gael ei gynnwys fel rhan o gontract achubwyr bywyd yr RNLI.	Dylid darparu isadeiledd mwy parhaol, yn ogystal â chadeiriau olwyn arbennig ar gyfer ymdrochi		Bydd hyn yn gwella enw da Porth Einon fel traeth sy'n darparu'n llawn ar gyfer pobl anabl.
12	Achubwyr Bywyd	Gwella arwyddion	Perthynas weithiol agos â'r ganolfan newydd		Mae'r achubwyr bywyd yn hanfodol er mwyn cadw statws y Faner Las.
13	Rheoli'r twyni	Gwell paneli dehongli ac arwyddion ynghylch gwiberod. Cynnal y llwybr estyll.	Gwaith cynnal a chadw parhaus a'r defnydd o wirfoddolwyr lleol		Gellid hefyd ddarparu gwybodaeth i berchnogion safleoedd carafanio i'w throsglwyddo i ddefnyddwyr
14	Bwyd, siopau ac amwynderau eraill	Cefnogaeth Croeso Cymru ar gyfer busnesau presennol ac ailddatblygu'r Smugglers Haunt a digwyddiadau marchnata	Siopau newydd fel rhan o'r ganolfan		Byddai ehangu'r cynnig i ymwelwyr yn cynyddu nifer yr ymwelwyr yn ystod cyfnodau tawel
15	Gwella'r gwasanaeth bws	Ymchwilio i wasanaethau ychwanegol ar gyfer cyfnodau tawel. Gwella edrychiad y safle bws.	Hyrwyddo llwybrau cerdded arfordirol sy'n cynnwys y defnydd o fysis fel rhan o'r daith.	Gwasanaeth parcio a theithio posib ar gyfer y cyfnodau prysur i leddfau tagfeydd traffig.	Angen gwneud rhagor i hyrwyddo argaeledd cludiant cyhoeddus. Byddai hyn yn annog teithiau cerdded arfordirol yn

16	YHA	Darparu man troi ar gyfer parcio ceir.	Byddai'n fuddiol defnyddio rhan o'r maes parcio gorlif. Dylid cael cludiant cyhoeddus ychwanegol ar gyfer y cyfnodau tawel.		Mae'n darparu gwasanaeth eiconig a hynod werthfawr mewn adeilad hanesyddol.
17	Mynediad i'r Tŷ Halen a rheolaeth ohono	Gwella'r arwyddion a'r arwyneb.	Gwaith cadwraeth ar yr adeilad. Gwella mynediad.	Mynediad i'r anabl i'r Tŷ Halen, man nofio diogel a phaneli dehongli ychwanegol	Ased lleol nad yw'n cael ei ddefnyddio digon.

18	Mynediad, materion a chyfleoedd arfordirol	Rhagor o arwyddion. Clirio ac arwynebu	Gwyliau cerdded, rhaglen teithiau cerdded tywys, hyrwyddo hanes yr ardal. Ni ddylai arwyddion ar gyfer Twll Culver fod yn rhy amlwg a dylent bwysleisio i ymwelwyr eu bod yn ei weld ar eu menter eu hunain.		Byddai hyn yn gwella twristiaeth yn ystod cyfnodau tawel
19	Digwyddiadau presennol gan gynnwys y treiaithlon	Cydlynu'n well â'r Awdurdod Lleol a chysylltu â threfnwyr y digwyddiadau	Byddai adeiladu canolfan newydd a'r rheolaeth gysylltiedig yn sicrhau bod digwyddiadau o'r fath yn rhedeg yn fwy llyfn.	Datblygu rhagor o ddigwyddiadau yn ystod y cyfnodau tawel i ymestyn y tymor.	Mae'n denu nifer mawr o bobl ond gellid ei reoli'n well.
20	Marchnata a hyrwyddo Porth Einon	Cefnogaeth ar gyfer busnesau lleol a Thŷ'r Borfa i greu digwyddiadau			Pwyslais ar chwaraeon dŵr heb fodur a threftadaeth forwrol/atyniadau bywyd gwylt/Awyr Dywyll

## 7.1.2 Horton

Rhif	Thema	Cam gweithredu tymor byr 1-3 blynedd	Buddsoddiad cyfalaf tymor canolig 3 -5 mlynedd	Nodiadau
1	Mannau parcio ceir	Sicrhau bod yr ardal yn cael ei chadw'n lân a bod biniau newydd a bwerir gan yr haul yn cael eu gosod. Rhagor o finiau baw cŵn.	Gosod rhwystr trydanol a chamera fideo y gellid ei weithredu o'r ganolfan newydd ym Mhorth Einon.	Dylai'r maes parcio hwn gael ei gloi dros nos, ond yn hwyrach. Unwaith y caiff y ganolfan ym Mhorth Einon ei hadeiladu, gellid ei reoli o fanna.
2	Toiledau a chawodyd d	Sicrhau lefel uchel o lendid. Gosod cawodydd a bwerir gan baneli solar	Bloc toiledau newydd	Bydd bloc toiledau newydd yn cynyddu'r defnydd yn ystod y cyfnodau tawel.
3	Gorsaf yr RNLI	Gwella'r paneli dehongli	Symud siop yr RNLI i'r adeilad newydd ym Mhorth Einon, o	Gallai'r orsaf gael proffil ychydig yn uwch.
4	Mynediad i'r traeth a thrwy'r twyni	Gwella arwyneb ac arwyddion y prif lwybr i'r traeth.		Bydd hyn yn caniatáu i'r defnyddwyr llai abl a phramiau gyrraedd y traeth.
5	Paneli dehongli i ymwelwyr	Arwyddion dehongli ar gyfer y twyni gan gynnwys rhybudd am wiberod.		Bydd hyn yn ategu'r arwyddion dehongli ym Mhorth Einon.
6	Cyfleusterau a lluniaeth i ymwelwyr	Trwydded i werthwyr yn ystod yr haf.		Bydd hyn yn darparu amwynderau ychwanegol ac yn helpu i oruchwylio rheolaeth y maes parcio.
7	Llwybr mynediad i Borth Einon	Gwella'r arwyneb a sicrhau bod y llwybr ar gael i'w ddefnyddio gan gerbydau'r gwasanaethau brys.		

## 7.2 Llywodraethu a rheoli'r ddau safle

### 7.2.1 Tymor Byr (1-3 blynedd)

Datblygu tîm lleol ar gyfer Porth Einon a Horton a all gyflwyno rhagor o swyddogaeth y cyngor. Bydd hyn yn gofyn am rannu adnoddau rhwng adrannau, ond byddai'n arwain at reoli asedau'r cyngor mewn modd mwy ymatebol, effeithiol a rhatach. Byddai'r tîm yn gyfrifol am: lendid y traeth a sbwriel ar y traeth, gorfodi meysydd parcio a chasglu arian parod, rheoli lansio cychod, cadwraeth y twyni, clirio llwybrau troed ac arwyddion.

Byddai dod â'r swyddogaethau hyn at ei gilydd mewn tîm bach yn hynod effeithiol. Byddai targedau uchelgeisiol ond realistig yn cael eu gosod ar eu cyfer ar draws anghenion gwahanol adrannau a byddent yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn, gan gyflawni'r rhan fwyaf o'r gwelliannau ffisegol e.e. atgyweirio llwybrau troed, yn ystod cyfnodau'r gaeaf. Byddent hefyd yn cysylltu â busnesau lleol, yr RNLI, y Clwb Achub Bywyd a'r gwasanaethau brys.

### **7.2.2 Cam gweithredu tymor canolig (3-5 mlynedd)**

Unwaith y sicrhau adnoddau ar gyfer y ganolfan ymwelwyr a thraeth newydd ym Mhorth Einon, gellid adeiladu'r adeilad amlswyddogaeth. Dylai'r ganolfan gael ei rhedeg gan Gwmni Budd Cymunedol, yn seiliedig ar Bwyllgor Neuadd y Pentref a rhanddeiliaid allweddol eraill megis: yr RNLI, busnesau lleol, y Clwb Rhwyfo, y Clwb Cychod a'r Clwb Achub Bywyd. Mae yna bosibilrwydd hefyd o weithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bydd angen cynllun busnes ar y ganolfan a fydd yn sicrhau ei dichonoldeb economaidd.

Byddai'r tîm Rheoli Traeth Lleol newydd ei sefydlu yn gweithio o'r ganolfan a gallai eu cyflogaeth gael ei throsglwyddo yn y pen draw i'r Cwmni Budd Cymunedol sydd newydd ei sefydlu. Yn y pen draw, bydd hyn yn arwain at fwy o reolaeth leol, bydd yn gwella'r amwynderau sydd gan Borth Einon a Horton i'w cynnig ac yn lleihau costau refeniw i'r Awdurdod Lleol.

## 8.0 Casgliadau 59

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi nifer o faterion a chyfleoedd i Borth Einon a Horton ac wedi'u grwpio'n gamau gweithredu tymor byr, canolig a hir.

Rhodddwyd ystyriaeth hefyd i beidio â chymryd unrhyw gamau o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Mae'n debyg y bydd hyn yn arwain at ddirywiad araf o ran apêl Porth Einon wrth i gyrchfannau eraill wella'u cynnig. Mae'n hanfodol felly fod Cyngor Abertawe yn gweithredu. Unwaith y bydd y cyngor wedi cytuno pa argymhellion i'w datblygu, bydd angen iddynt gysylltu â sawl sefydliad â charfan leol i gytuno ar ddull cydweithredol a chynhwysol.

Gellid cyflawni nifer o gamau gweithredu tymor byr gyda chyllidebau rhesymol ac o fewn amserlen 1 i 3 blynedd. Mae grantiau ar gael i gefnogi Cyngor Abertawe i fwrw ymlaen â'r ymyriadau hyn.

Bydd buddion sylweddol ychwanegol yn deillio o waith adeiladu cyfalaf mawr newydd yn y prif faes parcio. Byddai canolfan fodern, amlswyddogaeth yn cael ei chodi ar safle'r bloc toiledau presennol, a byddai hon ar agor drwy gydol y flwyddyn. Byddai hyn yn cyfnerthu apêl Porth Einon ac yn sicrhau ei lwyddiant a'i boblogrwydd fel cyrchfan i ymwelwyr ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

Dylid ystyried a oes angen y buddsoddiad cyfalaf tymor hwy a nodwyd yn yr adroddiad hwn ar ôl i'r ganolfan newydd a'r gwelliannau eraill i lan y môr gael eu cwblhau. Dylai'r buddsoddiadau hyn sy'n cynnwys angorfeydd newydd, lido, gwelliannau pellach i lwybr yr arfordir, gael eu hystyried dros amserlen 5 i 10 mlynedd.

**Astudiaeth Dichonoldeb Porth Einon: Nid yw'r ddogfen hon ar gael i'w lawrlwytho o'r we-dudalen hon oherwydd maint y ddogfen; os hoffech gael copi, e-bostiwch [rdpleader@swansea.gov.uk](mailto:rdpleader@swansea.gov.uk)**